


## GRIFFITHS, JOHN GWYNEDD (J. Gwyn) (1911-2004), ysgolhaig, bardd a chenedlaetholwr Cymreig



**Enw:** John Gwynedd Griffiths

**Dyddiad geni:** 1911

**Dyddiad marw:** 2004

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** ysgolhaig, bardd a chenedlaetholwr Cymreig

**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd

**Awdur:** Ceri Davies

Ganwyd 7 Rhagfyr 1911 yn y Porth, Cwm Rhondda, yn drydydd o bum plentyn y Parchg Robert Griffiths, gweinidog Moreia (B), Pentre, a Mrs Jemima Griffiths (gynt Davies). Brawd iau iddo oedd y **Parchg D. R. Griffiths** (1915-1990), ysgolhaig Beiblaidd ac emynydd. Addysgwyd ef yn Ysgol Sir y Bechgyn, y Porth, ac yng Ngholeg Prifysgol Deheudir Cymru a Mynwy, Caerdydd (dosbarth 1af mewn Lladin, 1932, dosbarth 1af mewn Groeg, 1933), Prifysgol Lerpwl (M.A. mewn Eifftoleg, 1936) a Choleg y Frenhines, Rhydychen (D.Phil., 1949). Pan oedd yn fyfyrwr yn Rhydychen (1936-9) cyfarfu â **Käthe Bosse**, yn enedigol o Wittenberg (Lutherstadt), yr Almaen, Eifftolegydd a gawsai waith yn Amgueddfa Ashmole ar ôl ffoi, a hithau'n rhannol o dras Iddewig, rhag erlid y Natsïaid. Priododd y ddau, 13 Medi 1939, ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd, uniad a arweiniodd at oes o rannu yr un dyheadau ac o gydweithio academaidd a llenyddol. Meibion iddynt yw'r awduron Robat Gruffudd (ganwyd 1943), sefydlydd Gwasg y Lolfa, a Heini Gruffudd (ganwyd 1946), awdurdod ar ddysgu'r Gymraeg i oedolion ac ymyrchydd brwd o'i phlaidd.

Yn 1939 cafodd J. Gwyn Griffiths swydd athro Lladin yn ei hen ysgol yn y Porth. Yn y cyfnod hwn ei gartref ef a **Käthe**, yn y Pentre, oedd canolfan 'Cylch Cadwgan', grwp o lenorion ifainc o gyffelyb fryd, yn cynnwys **Pennar Davies** a Rhydwen Williams. Yn radicaliaid eu hargyhoeddiadau Cristnogol, pasiffistaidd a chenedlaethol, dymument hefyd weld llenyddiaeth Gymraeg yn ymyrddhau o'i hen hualau, yn dod yn fwyfwy agored i ddylanwadau Ewropeaidd ac yn mynd i'r afael ag argyfyngau'r oes. Nodweddi gwaith llenyddol Cymraeg J. Gwyn Griffiths, ei gyfrolau o farddoniaeth - *Yr Efengyl Dywyll a Cherddi Eraill* (1944), ei ran yn y cywaith *Cerddi Cadwgan* (1953), *Ffroenau'r Ddraig* (1961), *Cerddi Cairo* (1969) a *Cerddi'r Holl Eneidiau* (1981) - a'i gyfrol o feirniadaeth lenyddol, *I Ganol y Frwydr* (1970), gan nodyn o ymrwymiad cenedlaethol a rhyng-genedlaethol, yn ogystal â chan ddiwylliant polymathig a llawer o feiddgarwch cellweirus. (Yn 2007 casglwyd ei holl gerddi ynghyd yn un gyfrol, *Hog Dy Fwyell*, wedi'i golygu gan ei fab Heini Gruffudd.) Yn 1943 symudodd o Gwm Rhondda i fod yn athro Lladin yn Ysgol Ramadeg y Bala: yn y cyfnod hwnnw cynorthwyodd Euros Bowen i sefydlu *Y Fflam*, cylchgrawn a fu (hyd 1952) yn llwyfan i do newydd o lenorion Cymraeg.

Yn 1946 penodwyd J. Gwyn Griffiths yn ddarlithydd cynorthwyol, yna yn 1947 yn ddarlithydd, yn y Clasuron yng Ngholeg y Brifysgol, Abertawe. Rhoes hyn gyfle iddo ddychwelyd o ddirif at y gwaith ymchwil a ddodwyd o'r neilltu ym mlynnyddoedd y rhyfel, astudiaeth o'r cwit crefyddol a gysylltidd â'r duwiau Eifftaidd Isis ac Osiris. Yn ei draethawd doethurol trafododd agwedd ar y chwedlau sy'n gysylltiedig â'r duwiau hynny, sef yr ymrafael rhwng Horus a Seth, gwaith a fu'n sylfaen i'w gyfrol gyntaf yn y maes, *The Conflict of Horus and Seth, from Egyptian and Classical Sources: A Study in Ancient Mythology* (1960). I ddilyn cafwyd *The Origins of Osiris* (1966), yna esboniadau meistraidd ar draethawd Groeg Plutarch *De Iside et Osiride* (1970) ac ar lyfr olaf 'Asyn Aur' yr awdur Lladin Apuleius, *Apuleius of Madauros: The Isis-Book (Metamorphoses, Book XI)* (1975), ac wedi hynny *The Origins of Osiris and his Cult* (1980). Enillodd y gweithiau hyn gydnabyddiaeth eang i'r awdur. Yng Ngholeg y Brifysgol, Abertawe, fe'i dyrchafwyd yn uwch-ddarlithydd (1959), darlennydd (1965) ac athro (1973). Bu hefyd yn Ddarlithydd Ymchwil Lady Wallis Budge yng Ngholeg y Brifysgol, Rhydychen (1957-8), yn Athro Gwadd ym Mhrifysgol Cairo (1965-6), ac yn Gymrawd ar Ymweliad yng Ngholeg yr Holl Eneidiau, Rhydychen (1976-7), yn ogystal â threulio cyfnodau ar ymweliad ym Mhrifysgolion Bonn a Tübingen. Ef oedd golygydd *The Journal of Egyptian Archaeology* o 1970 i 1978. Dyfarnwyd iddo raddau D.Litt. (Rhydychen), 1972, a D.D. (Cymru), 1979, ar sail ei weithiau cyhoeddig.

Yn 1979 ymddeolodd J. Gwyn Griffiths o'i swydd yn y brifysgol yn Abertawe, ond parhaodd i ymchwilio ac ysgrifennu gyda'r un eiddgarwch. Yr oedd bellach yn adnabyddus yn rhyngwladol fel awdurdod ar hen grefyddau'r Aifft ac ar ymateb y Groegiaid a'r Rhufeiniaid i'r diwylliant Eifftaidd. Yn ei ymddeoliad lledodd ei ddi-ddordebau ysgolhaigaidd i gynnwys crefyddau eraill yr Hen Fyd. Yn 1991 cyhoeddwyd *The Divine Verdict: A Study of Divine Judgement in the Ancient Religions*, a dilyn hynny, yn 1996, gan *Triads and Trinity*, cyfrol yn olrhain delweddau trindodaidd yn yr Hen Fyd ac yn cyd-destunoli athrawiaeth Gristnogol y Drindod. Hefyd cyhoeddwyd casgliad helaeth o'i ysgrifau pwysicaf, *Atlantis and Egypt with other Selected Essays* (1991), cyfrol arall sy'n arddangos ehangder ei ysgolheictod. Yn 1992 cyflwynwyd iddo Festschrift gan ei gyd-Eifftolegwyr, *Studies in Pharaonic Religion and Society in honour of J. Gwyn Griffiths* (gol. Alan B. Lloyd), cyfrol sy'n cynnwys llyfryddiaeth o'i gynnyrch ysgrifenedig hyd 1991. Llawenydd arbennig iddo oedd gweld agor, ym Mhrifysgol Abertawe yn 1998, y Ganolfan Eifftaidd, cartref parhaol a phwrpasol i Gasgliad Wellcome o hynafiaethau Eifftaidd, y bu ef a **Käthe Bosse-Griffiths** yn gyfrwng ei sicrhau ar gyfer y brifysgol.

Drwy'r holl flynyddoedd bu J. Gwyn Griffiths ar flaen y gad yn hyrwyddo buddiannau Cymru a'r Gymraeg. Ef oedd prif ysgogydd sefydlu Adran Glasurol Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru, adran y bu'n ysgrifennydd (1951-72) a llywydd (1972-92) ymroddedig iddi. Dan ei hadain hi golygodd y ddau gasgliad *Cerddi o'r Lladin* (1962) a *Cerddi Groeg Clasurol* (1989), a chyhoeddodd hefyd drosiad Cymraeg o waith Aristoteles ar feirniadaeth lenyddol, *Y Farddoneg* (1978; argraffiad newydd, 2001). Yr oedd yn gyfailli i **Waldo Williams** a **D. J. Williams**: bu casgliad a wnaed ganddo o gerddi **Waldo** yn sail ar gyfer cyhoeddi *Dail Pren* (1956), ac ef a olygodd y gyfrol deyrnged **D. J.** (1965), y casgliad o'i storiâu cynnar *Y Gaseg Ddu* (1970), a'r gyfrol o luniau amdano yng nghyfraes *Bro a Bywyd* (1982). Yn gynharach yn ei fywyd ysgrifennodd nifer o bamffledi gwleidyddol, yn cynnwys *Anarchistiaeth* (1944) ac *Y Patrwrm Cydwladol* (1949), ac o 1948 i 1952 bu'n olygydd cyfnodolyn Plaid Cymru, *Y Ddraig Goch*. Safodd hefyd fel ymgeisydd dros Blaid Cymru mewn etholiadau lleol a seneddol yng nghylch Abertawe. Bu'n gefn i bob gweithgarwch Cymraeg yn ardal Abertawe, ac er ei lesteirio gan fyddardod yn ei flynyddoedd olaf, anaml y byddai'n absennol o unrhyw ddiwyddiad i hyrwyddo achos yr iaith yn y fro. Am flynyddoedd bu'n ddiagon yng Nghapel Gomer (B) yn Abertawe, ac yn bregethwr lleeg a roes yn ddirbrin o'i wasanaeth i eglwysi pob enwad yn y cylch.

Yr oedd J. Gwyn Griffiths yn wr o argyhoeddiadau dyfnion, yn weithiwr diarbed ac yn gwmniwr cynnes a ffraeth. Bu farw yn Abertawe, yn 92 oed, ar 15 Mehefin 2004, dros chwe mlynedd ar ôl ei briod. Ar 23 Mehefin 2004, yn dilyn gwasanaeth yng Nghapel y Trinity, Abertawe, claddwyd ei weddillion yn yr un bedd â **Käthe** ym Mynwent Treforys.

## Awdur

Ceri Davies

## Ffynonellau

C. Davies, yn *Barn* 347 (Rhagfyr 1991), 33-5

Alan Brian Lloyd, yn *The Journal of Egyptian Archaeology* 91 (2005), 181-5

Heini Gruffudd, yn *Hog Dy Fwyell* (2007), 9-15

Heini Gruffudd, *Yr Eriad. Hanes Kate Bosse-Griffiths a'i theulu yn yr Almaen a Chymru adeg yr Ail Ryfel Byd* (2012)

Meic Stephens, *Necrologies. A Book of Welsh Obituaries* (2008), 176-80

adnabyddiaeth bersonol

## Darllen Pellach

Archifau LIGC: General Election, 8th October, 1959. Gower Division of Glamorgan. Dr. J. Gwyn Griffiths, Plaid Cymru Candidate

Erthygl Wicipedia: J. Gwyn Griffiths

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 55219

Wikidata: Q6105857

**Dyddiad cyhoeddi:** 2013-04-23

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Davies, C., (2013). GRIFFITHS, JOHN GWYNEDD (J. Gwyn) (1911-2004), ysgolhaig, bardd a chenedlaetholwr Cymreig. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c8-GRIF-GWY-1911>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Yn ddiwyd gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government